Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol (Cymru) (Diwygio) 2007.

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan yr Adran Cynaliadwyedd a Datblygu Gwledig ac fe'i gosodir ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1. **Disgrifiad**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/124/EC yng Nghymru drwy ddiweddaru'r rhestr o genera a rhywogaethau deunyddiau planhigion a gwmpesir yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gan Reoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995.

2. **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol**

Nid oes unrhyw faterion yn codi. Diben y Rheoliadau hyn yw diweddaru'r rhestr o genera a rhywogaethau deunyddiau planhigion a gwmpesir gan Reoliadau 1995 i gynnwys Zea Mays (popgorn ac india-corn).

3. **Y Cefndir Deddfwriaethol**

Mae Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 yn gweithredu Cyfarwyddebau y Cyngor 92/33EEC a 93/62/EEC ar farchnata deunyddiau lluosogi a phlannu llysieuol, ac eithrio hadau. Mae Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/124/EC yn diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 92/33/EEC.

Gwneir Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol (Cymru) (Diwygio) 2007 o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Dynodir Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon yn rhinwedd O.S. 2005/2766. Mae pwerau o dan y Ddeddf hon wedi eu dynodi i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 28 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

4. **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Cyfarwyddebau y Cyngor 92/33/EEC a 93/62/EEC yn sefydlu trefn er mwyn sicrhau bod prynwyr ledled y Gymuned Ewropeaidd yn derbyn deunyddiau lluosogi a phlannu llysieuol sy'n iach ac o ansawdd da. Maent yn pennu safonau y mae'n rhaid i rai genera a rhywogaethau deunyddiau planhigion eu bodloni pan gânt eu marchnata ac yn rhagnodi amodau y mae'n rhaid i gyflenwyr deunyddiau planhigion eu bodloni. Ar hyn o bryd, mae'r Cyfarwyddebau'n cael eu gweithredu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o dan Reoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995. Mae deddfwriaeth debyg ond ar wahân yn cael ei gweithredu yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad weithredu'r Cyfarwyddebau hyn gyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl i sicrhau bod deunyddiau planhigion yn cael eu marchata mewn ffordd gyson ledled yr UE. Yn ôl yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau, sy'n gweithredu yng Nghymru ar ran Llywodraeth y Cynulliad, ni fydd y Rheoliadau hyn yn cael llawer o effaith yng Nghymru, gan ei bod yn anhebygol y bydd planhigion ifanc Zea Mays yn cael eu marchnata yma.

5. **Gweithredu**

Gwnaethpwyd y Rheoliadau hyn ar 25 Gorffennaf 2007 a byddant un dod i rym ar 28 Awst 2007. Mae deddfwriaeth debyg eisoes wedi'i gweithredu yn Lloegr ar 1 Gorffennaf 2007 ac mae'n cael ei hystyried yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ychydig o effaith y bydd y Rheoliadau hyn yn ei chael, yn ôl pob tebyg, yn sgil eu gweithredu. Er hynny, byddai methu â gweithredu'r Rheoliadau hyn yn achosi anawsterau gweithredol i'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau, gan y byddai angen defnyddio trefn reoliadol ar wahân i ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru a Lloegr.

6. **Ymgynghori**

Barnwyd nad oedd angen ymgynghori ynghylch y Rheoliadau hyn (gweler yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol).

7. **Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Y Dewisiadau

Dewis 1 - Gwneud Dim

Bydai methu â gweithredu'r Rheoliadau hyn yn achosi anawsterau gweithredol i'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau, gan y byddai angen defnyddio trefn reoliadol ar wahân i ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru a Lloegr.

Dewis 2 - Cyflwyno'r Rheoliadau

Bydd gwneud y Rheoliadau arfaethedig yn sicrhau bod Cymru yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a geir yn Aelod-wladwriaethau eraill y Gymuned Ewropeaidd, gan sicrhau cysondeb a darparu sail gyfartal. Byddai'r Rheoliadau hefyd yn helpu i ddiogelu planhigion ymhellach rhag clefydau ac yn symleiddio gweithrediadau trawsffiniol ar gyfer yr Arolygiaeth.

Materion yn ymwneud â thegwch

Ystyrir y byddai'r Rheoliadau hyn yn cael yr un effaith ar draws y diwydiant. Ni ddylai unrhyw faich tebygol ar fusnesau bach fod yn anghymesur o'i gymharu â'r effaith ar fusnesau mwy er y cydnabyddir y byddai gan fusnesau llai, at ei gilydd, lai o gapasiti gweinyddol.

Y Manteision

Gan nad yw'n debygol y bydd planhigion ifanc Zea Mays yn cael eu marchnata yng Nghymru, ychydig iawn o effaith, os o gwbl, y bydd y Rheoliadau hyn yn ei chael ar y sector busnesau yng Nghymru. Felly prin yw'r manteision o wneud dim. Er hynny, byddai peidio â'u gweithredu yn achosi anawsterau gweithredol i arolygwyr yr Arolygiaeth. Byddai'n rhaid iddynt weithredu dwy set o ddeddfwriaeth ar wahân yng Nghymru a Lloegr er mwyn darparu gwasanaethau'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn.

Ar y llaw arall, dyma fanteision gweithredu'r mesurau:

- Cysondeb gyda'r Aelod-Wladwriaethau eraill – byddai hyn yn hwyluso'r fasnach o ran bod cyflwyno'r Rheoliadau hyn yn sicrhau y bydd prynwyr ym mhob un o wledydd y Gymuned Ewropeaidd yn derbyn deunyddiau lluosogi a phlannu llysieuol sy'n iach ac o ansawdd da.

- Sicrhau dull cydgysylltiedig o weithio, a threfn drylwyrach o ddiogelu planhigion a rheoli'r risg o ran plâu, a

- Byddai'r Rheoliadau hefyd yn sicrhau bod gwasanaeth yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau yn cael ei redeg yn ddi-drafferth, yn enwedig o ran symleiddio gweithrediadau trawsffiniol.

Costau

Ni fyddai'r Rheoliadau yn effeithio ar elusennau a mudiadau gwirfoddol, a chan nad yw'n debygol y bydd planhigion ifanc Zea Mays yn cael eu marchnata yng Nghymru, bach iawn o effaith y bydd y Rheoliadau hyn yn ei chael, os o gwbl, ar feithrinfeydd a chwmnïau eraill yng Nghymru. Ni fyddai unrhyw gostau o ran cydymffurfio'n gysylltiedig â'r dewis o wneud dim.

Yn yr un modd, ni chodir unrhyw gostau ar Lywodraeth Cynulliad o ganlyniad i weithredu'r Rheoliadau hyn. Telir unrhyw gostau gan Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau yr Adran Fwyd a Materion Gwledig sydd wedi'i phenodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu ar ei rhan, yng Nghymru.

Asesiad o'r Gystadleuaeth

Defnyddiwyd yr hidl cystadleuaeth a'r casgliad yw nad oes risg sylweddol o'i effaith ar gystadleuaeth. Felly, ni chafodd asesiad manwl ei baratoi.

Wrth baratoi'r hidl, nodwyd mai'r farchnad oedd y diwydiant planhigion a chynnyrch planhigion yng Nghymru. Yn y sector hwn, gwyddys nad oes gan unrhyw fusnesau fwy na 10% o gyfran y farchnad. Ni fydd y cynigion yn effeithio ar strwythur y farchnad ac ni fydd yn effeithio'n andwyol ar gwmnïau newydd, o'u cymharu â chwmnïau presennol. Nid yw newid cyflym yn y dechnoleg yn un o nodweddion y farchnad hon. Yn olaf, nid yw cyflwyno'r mesurau hyn yn effeithio ar y dewis o gwmnïau o ran pris, ystod yr ansawdd neu o ran lleoliad eu cynnyrch.

Ymgynghori

Nid ystyriwyd bod angen ymgynghori ynghylch cyflwyno'r Rheoliadau arfaethedig oherwydd na fyddent yn cael llawer o effaith.

Adolygiad Ar ôl eu Gweithredu

Mae'r Pwyllgor Sefydlog ar Iechyd Planhigion yn cynnal rhaglen sy'n monitro'r datblygiadau o ran iechyd planhigion yn rheolaidd, ar lefel y Gymuned. Mae'r rhaglen hon yn rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau a geir o fewn yr Aelod-Wladwriaethau. Bydd cyflwyno'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod prynwyr ledled y Gymuned Ewropeaidd yn derbyn deunydd lluosogi a phlannu llysieuol sy'n iach ac o ansawdd da. Effaith cyffredinol gweithredu'r Rheoliadau hyn yw sicrhau bod trefn well ar waith ledled yr UE ar gyfer diogelu planhigion a rheoli peryglon o ran plâu.

Crynodeb ac argymhelliad

Y dewisiadau yw gwneud dim neu gweithredu'r Rheoliadau newydd.

Ychydig iawn o gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Rheoliadau newydd, ond gallai'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â'u gweithredu fod yn fwy sylweddol. Yn benodol, byddai'n effeithio ar y fasnach â gwledydd eraill y Gymuned a byddai'n peryglu statws iechyd deunyddiau lluosogi a phlannu llysieuol yng Nghymru. Yn ogystal, byddai'n achosi problemau gweithredol i'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau a allai effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir ganddi ac ar ei pherthynas â Llywodraeth y Cynulliad. Yng ngoleuni'r asesiad hwn, argymhellir bod y mesurau'n cael eu gweithredu yng Nghymru, yn ôl y gofyn.